

Yr Athro Susan Jebb wedi'i hailbenodi'n Gadeirydd yr ASB

Gallwch ddarllen yma [gyhoeddiad](#) yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn San Steffan.

Dywedodd yr Athro Jebb, sydd, ochr yn ochr â'i rôl gyda'r ASB, hefyd yn Athro Deiet ac Iechyd y Boblogaeth yn Adran Gwyddorau Iechyd Gofal Sylfaenol Nuffield ym Mhrifysgol Rhydychen:

Mae parhau i fod yn Gadeirydd ar sefydliad mor wych yn ffrainc enfawr, ac rwy'n falch o allu parhau'n Gadeirydd yr ASB ar yr adeg bwysig hon. Rwy'n hynod ddiolchgar am gefnogaeth fy nghydweithwyr ym Mhrifysgol Rhydychen, sydd wedi'i gwneud yn bosib i mi aros yn y rôl.

Bydd y penodiad yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i gymheiriaid yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.